**Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd Nos Lun, Ebrill 13eg 2015 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley, Margaret Bowe, Rob Parkes, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin L Hughes, Brian Davies, Mark Young, Roy Tickle, Gaynor Wood, Catherine Jones, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Gaynor Morgan Rees, Shereen Devine, Colin Hughes.

Cadeiriwyd Pwyllgorau Cyllid a Materion Cyffredinol gan y Cyng. Raymond Bartley gyda'r Cyng. Margaret Bowe yn cadeirio'r Pwyllgor Cynllunio.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**235. Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiad canlynol:

(1) Cyng Brian Davies - eitem agenda A1(4) - cynllunio- Pant Derw.
(2) Cyng Geraint Williams - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(3) Cyng Raymond Bartley - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(4) Cyng Catherine Jones - eitem agenda C1(15) - gohebiaeth - cymorthdaliadau Carnifal Dinbych
(5) Cyng Geraint Williams - eitem agenda C1(16) - gohebiaeth - cymorthdaliadau Lyf Lôn
(6) Cyng Roy Tickle - eitem agenda C1(14) - gohebiaeth - cymorthdaliadau Gŵyl Ganol Haf
(7) Cyng Gaynor Wood - eitem agenda C1(14) - gohebiaeth - cymorthdaliadau Gŵyl Ganol Haf
(8) Cyng Raymond Bartley - eitem agenda C1(15) - gohebiaeth - cymorthdaliadau Carnifal Dinbych
(9) Cyng Raymond Bartley - eitem agenda B1(2) - taliad CCLIG&ChC

**A. <u>Pwyllgor Cynllunio:</u>**

**236.** (1) Ceisiadau am ganiatâd cynllunio. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) Canolfan Siopa Kwik Save, Ffordd yr Orsaf (Barn Sgrinio)
(2) Tir cyfagos a Pant Derw
(3) Tir cyffiniol a Frondeg, Ffordd Rhuthun

Ynglŷn â'r cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer Graig Villa, Lôn Abram, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais. Er hynny roedd y cyngor yn ymwybodol fod yr adeilad dan sylw mewn ardal cadwraeth ac yn nodi fod yr hyn a fwriadwyd yn gosod ffenestri newydd Upvc yn lle'r hen ffenestri Upvc ac yn gofyn y cwestiwn os oedd hyn yn dderbyniol mewn ardal cadwraeth

Ynglŷn â'r cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer tir cyfagos a Llyn Bran, Bylchau, oherwydd nifer y dogfennau a dderbyniwyd ynglŷn â'r cais, cytunwyd i wneud cais am fwy o amser i ystyried y cais.

(2) Materion Cynllunio eraill: Nid oedd unrhyw fater cynllunio arall.

**B. <u>Pwyllgor Cyllid:</u>**

**237. Cyfrifon:** 1. Cytunwyd i dalu'r cyfrifon canlynol a dderbyniwyd:

(1) Trefi Caerog Ewropeaidd - tâl aelodaeth ryngwladol 2015 - £170.0
(Rhif siec 005599)

(2) CCLIG&ChC - cinio cynrychiolydd 17.4.15 - £15.00
(Rhif siec 005600)
(3) Mac 3 - gwe-letya 12 mis - £69.00
(rhif siec 005601)

Cyfanswm taliadau: £254.

2. Nodwyd adroddiadau ariannol cyfnod **1.4.14 - 31.03.15**

3. Unrhyw faterion ariannol eraill: (1) Nodwyd a derbyniwyd y rhestr taliadau a wnaed gan glerc y dref/swyddog cyllid rhwng Mawrth 24ain a'r 31ain 2015 - Cofnod 231(2)(1) yn cyfeirio.

(2) Archwiliad blynyddol cyfrifon 2014/2015. Dywedodd clerc y dref fod y cyngor wedi cael ei alw i archwiliad ar Mai 31ain 2015. Os oedd incwm a gwariant y cyngor dros £200,000, bydd y cyngor yn cael ei alw i archwiliad canolradd - bydd hyn yn golygu gwaith ychwanegol oedd yn cynnwys ymateb i holiadur 10 tudalen oedd yn cynnwys 27 o gwestiynau.

**C. <u>Pwyllgor Materion Cyffredinol</u>:**

**238. Llythyron, E-byst a Hysbysiadau:** (1) Penderfynwyd nodi chwe eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bod angen ar y canlynol:

(1) Ystyriwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth y Cyng Gaynor Morgan Rees ynglŷn â chaniatâd absenoldeb. Roedd adran 85 o Ddeddf Llywodraeth leol 1972 yn caniatáu i'r cyngor gymeradwyo cyfnod o absenoldeb. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i ganiatáu absenoldeb dros gyfnod o wyth wythnos.**
(2) Cyfeiriwyd y ceisiadau a dderbyniwyd am gymorthdaliadau oddi wrth (a) Cymdeithas Eirin Dinbych Dyffryn Clwyd (b) Grŵp Busnes Dinbych, (c) Cronfa Hen ac Anabl Dinbych, (ch) Elite Martial Arts, (d) Carnifal Dinbych (e) Gŵyl Ganol Had Dinbych a (f) Love Lane Neighbourhood Watch, at yr is bwyllgor cymorthdaliadau.
(3) Ystyriwyd yr e-bost a dderbyniwyd gan y Cyng Rob Parkes yn gyrru ymlaen e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Steve Chalk, Clwb Bowlio Dinbych. Eglurodd y Cyng Parkes y rheswm tu ôl i'r e-bost. Ymhelaethodd y Cyng Raymond Bartley ar y sefyllfa gyda'r lawnt bowlio. Dywedwyd yn ystod y drafodaeth ddilynol fod angen i'r cyngor fod yn ofalus ac i beidio â rhwymo'r cyngor i mewn i rywbeth na allai ei gario ymlaen. Dywedwyd hefyd y dylai'r clwb fod yn edrych am nawdd o fannau eraill. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i yrru llythyr i'r clwb yn dweud nad oedd gan y cyngor arian yn ei gyllideb oedd wedi ei glustnodi ar gyfer y clwb a dylai unrhyw gais am arian gael ei wneud drwy'r drefn cymorthdaliadau a hefyd i bwyntio allan sut roedd y sustem cymorthdaliadau yn gweithio.**
(4) E-bost oddi wrth y Cyng Roy Tickle, ar ran yr Ŵyl Ganol Haf, yn gofyn am barcio am ddim ar achlysur y Farchnad Geltaidd dydd Sadwrn Mehefin 20fed 2015. **Penderfynwyd caniatáu'r cais.**
(5) Llywodraeth Cymru. E-bost ynglŷn â Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2013 (Democratiaeth)(Cymru)(Cychwyn Rhif 2) 2015 oedd yn dod ac adrannau 55-57 o'r Ddeddf i rym, oedd yn ymglymedig a chynghorau tref a chymuned i gyhoeddi gwybodaeth yn electronig. Roedd y gorchymyn yn dod i rym ar Fai 1af 2015. Roedd y gofynion newydd yn golygu mwy o waith i weinyddiaeth y cyngor. Cytunwyd i gyfeirio'r ddogfen at yr is bwyllgor Archwilio a Phersonél i ddarllen a ffurfio a threfnu sut i weithio'r gofynion newydd.

**239. Cofnodion / Adroddiadau Cyfarfodydd is bwyllgorau'r cyngor.** Nid oedd unrhyw gofnodion / adroddiadau

**240. Adroddiadau**: (1) Gweithgor Tân Gwyllt. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.
(2) Grŵp Busnes Dinbych. Cafwyd adroddiad byr gan y Cyng Roy Tickle ar gyfarfod diweddar - trafodwyd dau bwnc - (1) polisi dwyieithog a (2) Cymdeithas Eirin Dinbych Dyffryn Clwyd.
(3) Eirianfa. Dywedodd y Cyng Brian Davies fod Eirianfa wedi colli tenant arall.
(4) Cronfa Argyfwng R Arthur Jones. Cyfeiriodd y Cyng Catherine Jones at y cais a gyflwynwyd i GSDd i osod mainc ger y Gofgolofn Rhyfel. Roedd CSDd am i'r ymgeiswyr gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn y swm o £5m yn ei le ac wedi awgrymu iddynt ofyn i'r cyngor tref. Dywedwyd os fyddai'r cyngor tref yn gofalu am yr yswiriant byddai'r cwestiwn o berchnogaeth a chynnal a chadw'r fainc yn codi. Cytunwyd i glerc y dref ofyn am gyngor oddi wrth yswirwyr y cyngor ar y mater.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**241. Stryd Fawr Dinbych.** Atgoffodd clerc y dref yr aelodau am yr ymweliad safle a drefnwyd gyda swyddog o GSDd dydd iau Ebrill 16eg am 10 o'r gloch y bore.

**242. Drysau'n Agored yn Ninbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at y cyfnewid e-byst gyda Margaret a Ray Thomas. Cytunwyd y dylai'r Cyng Medwyn Williams, Margaret Bowe a Catherine Jones gynrychioli'r cyngor mewn unrhyw gyfarfodydd. Clerc y dref i drafod dyddiad gyda Mr & Mrs Thomas ar gyfer cyfarfod.

**243. Caniatâd Absenoldeb.** Dywedodd clerc y dref fod yr wyth wythnos yn caniatáu absenoldeb bellach wedi dod i ben. Roedd y Cyng Devine wedi cyflwyno cais bellach am ganiatâd absenoldeb. Fel y dywedwyd o'r blaen roedd adran 85 o Ddeddf Llywodraeth leol 1972 yn caniatáu i'r cyngor gymeradwyo cyfnod o absenoldeb. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i gymeradwyo caniatâd absenoldeb am gyfnod pellach o wyth wythnos.**

*Yn y man yma gadawodd y Cyng Philip Stevens y cyfarfod am 7.45 o'r gloch.*

**244. Dawns Elusennol y Maer.** Dywedodd clerc y dref, oherwydd nifer isel rhai oedd yn mynychu bu rhaid newid y lleoliad o'r babell fawr i'r ystafell bwrpasol i fynnu'r grisiau ym Melin Brwcws. Oherwydd hyn, lleihawyd pris y tocyn o £32 i £27. Bydd ad-daliad i'r rhai oedd wedi talu £32.

**245. Materion o Ddiddordeb:** 1. Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau a chytunwyd gweithredu lle bo angen:

(1) CSDd yn edrych ar gylchfan Pwll y Grawys a newidiadau i'r fan aros bysiau.
(2) Wal i'w thrwsio yn Ffordd Las.
(3) Derbyniwyd cwynion oddi wrth aelodau hŷn Eglwys y Santes Fair eu bod yn ei chael hi'n hanodd i groesi'r ffordd ger yr Eglwys.
(4) Derbyniwyd cwyn fod arwydd hysbysebu'r Glass Onion yn cael ei rwymo ar y Gofgolofn Rhyfel.
(5) Angen diweddariad ar Arwyddion yr A55.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.55 o'r gloch.

Arwyddwyd:..........................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:..........................................